

AELODAU'R CYHOEDD YN SIARAD YNG NGHYFARFODYDD Y CYNGOR

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cydnabod bod modd i'w breswylwyr wneud cyfraniad pwysig at ei benderfyniadau a bod yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr.

Mae'r canllaw yma yn darparu gwybodaeth am yr hyn y mae modd i aelodau'r cyhoedd ei ddisgwyl wrth fynd i un o gyfarfodydd y Cyngor.



CYNNWYS

	Tudalennau
1. Beth yw cyfarfod y Cyngor?	3
2. Pwy sy'n dod i gyfarfod y Cyngor Llawn?	3
3. Ble a phryd mae'r Cyngor Llawn yn cyfarfod?	3
4. Sut mae modd i mi sicrhau bod fy 'llais' yn cael ei glywed?	4
5. Pwy sy'n cael siarad?	4
6. Am faint o amser caf i siarad?	4
7. Pa fath o gwestiwn mae modd i mi ei ofyn yn y cyfarfod?	5
8. Cyflwyno'ch cwestiwn i'r Cyngor	6
9. Presenoldeb yn y cyfarfod	6
10. Pryd bydda i'n siarad?	7
11. Dogfennau ategol neu gymhorthion gweledol	7
12. Ar ôl annerch y Pwyllgor	8
13. Sut ydw i'n cofrestru i siarad?	8
14. Sut ydw i'n cofrestru i siarad yn Gymraeg?	8
15. Sut ydw i'n cofrestru i siarad os oes gyda fi anabledd neu anghenion ychwanegol?	9
16. Cyflwyno sylwadau ysgrifenedig	9
17. Gwybodaeth Ychwanegol	9





1. Beth yw cyfarfod y Cyngor Llawn?

Y Cyngor Llawn yw'r prif fforwm i bob un o'r 75 Aelod Etholedig drafod materion polisi sydd o bwys i'r Cyngor a phreswylwyr Rhondda Cynon Taf.

2. Pwy sy'n dod i gyfarfod y Cyngor Llawn?

Mae 75 o Gynghorwyr yng Nghyngor Rhondda Cynon Taf, ac fel rheol maen nhw'n cyfarfod bob mis ar gyfer cyfarfodydd Cyngor Llawn. Maen nhw hefyd yn cymryd rhan mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ystod mis Mai bob blwyddyn. Mae cyfrifoldebau'r Cyngor Llawn yn cynnwys;

- pennu cyllideb
- cymeradwyo'r strategaethau a'r cynlluniau sy'n rhan o'r 'fframwaith polisi'
- cymeradwyo'r cyfansoddiad
- penodi'r Prif Weithredwr ac uwch staff
- mabwysiadu cynllun lwfansau i Aelodau

3. Ble a phryd mae'r Cyngor Llawn yn cyfarfod?

Mae'r Cyngor Llawn yn cyfarfod unwaith y mis ac mae modd dod o hyd i fanylion y calendr cyfarfodydd [yma](#).

Cynhelir y cyfarfodydd yn y dull hybrid. Mae hyn yn golygu bod modd i gyfranogwyr fynd i Siambr y Cyngor neu ymuno â'r cyfarfod ar-lein. Mae'r holl gyfarfodydd hybrid yn cael eu darlledu'n fyw ar wefan y Cyngor, fel bod modd i'r cyhoedd eu gwyllo.



Mae rhestr o holl gyfarfodydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn bresennol y Cyngor ar gael ar ein gwefan. Cliciwch [yma](#).

4. Sut mae modd i mi sicrhau bod fy 'llais' yn cael ei glywed?

Mae dwy ffordd i'ch llais gael ei glywed yng nghyfarfodydd y Cyngor. Cewch chi ddod i Siambr y Cyngor neu ymuno â'r cyfarfod ar-lein trwy'r platfform y mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio, 'Zoom'. Ar ôl i chi ofyn i siarad mewn cyfarfod, byddwch chi'n cael cyfarwyddiadau clir ar sut i ymuno â'r cyfarfod, boed hynny wyneb yn wyneb neu ar-lein (Gweler adran 13 'Sut ydw i'n cofrestru i siarad?')

5. Pwy sy'n cael siarad?

Mae gan **unrhyw un sydd naill ai'n byw yn y Fwrdeistref Sirol, neu'n drethdalwr y Cyngor neu'n drethdalwr cyfraddau annomestig y Cyngor** hawl i siarad yn y Cyngor Llawn.

Caiff unrhyw breswylwr ofyn cwestiwn i'r Aelodau Gweithredol, Cadeiryddion y Pwyllgorau neu unrhyw Aelod o'r Cyngor. Mewn unrhyw un cyfarfod chaiff neb gyflwyno mwy nag un cwestiwn, a dim mwy nag un cwestiwn o'r fath ar ran un mudiad/sefydliad.

Os bydd rhywun o dan 16 oed yn dymuno annerch y cyfarfod, byddwn ni'n trefnu iddyn nhw ddod ag oedolyn gyda nhw. Yn ogystal â hynny, bydd angen cwblhau'r dogfennau GDPR perthnasol.

6. Am faint o amser caf i siarad?

Rhaid caniatáu hyd at **5 munud** yr un ar gyfer cyflwyno chwech o gwestiynau i'w gofyn a'u hateb yn y cyfarfod, a hefyd ar gyfer ateb cwestiynau sy'n ategol iddyn nhw.

Fe gaiff holwr sydd wedi cyflwyno cwestiwn yn bersonol ofyn un cwestiwn ategol heb rybudd i'r Cynghorydd sydd wedi ateb y cwestiwn gwreiddiol. Bydd eisiau i'r cwestiwn ategol fod yn berthnasol i'r ateb a fydd wedi cael ei roi.



Os bydd unrhyw gwestiwn heb gael ei ofyn neu'i ateb yn ystod adeg y cwestiynau cyhoeddus, bydd angen cyflwyno cwestiwn/ateb ysgrifenedig ar ôl y cyfarfod.

Mae gan y Cadeirydd ddisgresiwn i ofyn i'r siaradwr orffen siarad cyn i'r amser yma ddod i ben, os yw'r Cadeirydd o'r farn bod y siaradwr yn gwneud unrhyw sylwadau sy'n ymddangos yn ddifenyddol, yn sarhaus neu'n amherthnasol i'r eitem sy'n cael ei thrafod.

7 Pa fath o gwestiwn mae modd i mi ei ofyn yn y cyfarfod?

Mae modd i'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd wrthod cwestiwn am y rhesymau canlynol:

- (i) Nid yw'r cwestiwn ynghylch mater y mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb amdano, neu os nad yw'n effeithio ar ardal Rhondda Cynon Taf;
- (ii) Mae'r cwestiwn yn ddifenyddol, gwacsaw neu'n sarhaus/tramgwyddus;
- (iii) Mae'n sylweddol debyg i gwestiwn a gyflwynwyd mewn Cyfarfod o'r Cyngor yn ystod y 12 mis diwethaf;
- (iv) Mae'n galw am ddatgelu gwybodaeth gwbl gyfrinachol, neu eithriedig;
- (v) Mae'r cwestiwn yn berthnasol i unigolyn/grŵp/busnes neu amgylchiadau sy'n benodol i chi;
- (vi) Mae'n ymwneud â mater sy'n destun achos neu weithdrefnau a gorfodi cyfreithiol, neu apêl i lys neu driwlynlys neu i un o Weinidogion y Llywodraeth neu i'r Cynulliad Cenedlaethol, neu ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus;
- (vii) Mae'n ymwneud ag amgylchiadau personol neu ymddygiad unrhyw Swyddog neu Gynghorydd, neu amodau gwasanaeth gweithwyr;
- (viii) Mae'n ymwneud â gweithgarwch a nodau plaid wleidyddol neu fudiad/sefydliad;
- (ix) Mae'r cwestiwn yn berthnasol i Benderfyniad Rheoleiddio neu fater a fydd yn gallu arwain at Benderfyniad Rheoleiddio;
- (x) Mae'r cwestiwn yn ddatganiad yn hytrach nag yn gwestiwn dilys.



- (xi) Yn ogystal â hynny, mae modd i'r Llywydd neu'r Dirprwy Llywydd ddyfarnu na fydd cwestiwn yn cael ei ateb os yw Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol o'r farn y byddai'r gost o lunio'r ymateb yn uwch na'r terfynau ariannol a nodir yn y Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004 fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd. Bydd penderfyniad y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd ynghylch gwrthod cwestiwn yn derfynol.

8. Cyflwyno'ch cwestiwn i'r Cyngor

Bydd y Swyddog Priodol yn gwneud cofnod o bob cwestiwn a ddaw i law, ac o'r dyddiad ac amser y daeth i law. Bydd copi o'r cwestiwn yn cael ei gyhoeddi fel bod modd i'r cyhoedd ei weld.

Bydd y Swyddog Priodol yn anfon copi o'r cwestiwn at y Cynghorydd y cyfeirir y cwestiwn ato ef neu ati hi ar gyfer ei ateb. Rhaid i gwestiynau a wrthodir fod yn agored i'w gweld, gyda chofnod o'r gwrthodiad yn cynnwys y rhesymau am eu gwrthod. Dosberthir copïau o'r holl gwestiynau sydd i'w gofyn mewn cyfarfod penodol i'r bob un o'r holl Gynghorwyr, a bydd copïau ar gael i'r cyhoedd sy'n bresennol yn y Cyfarfod yn ogystal.

Bydd cofnodion y Cyfarfod yn cofnodi manylion y cwestiynau a fo wedi'u gofyn (gan gynnwys unrhyw gwestiynau ategol) a chan bwy, ynghyd â'r atebion a fo wedi'u rhoi.

9. Presenoldeb yn y Cyfarfod

Dylai aelodau'r cyhoedd sydd wedi cofrestru i siarad gyrraedd y Siambr/ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn dechrau'r cyfarfod a dylen nhw roi gwybod i Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd eu bod nhw wedi cyrraedd.

Os byddwch chi'n dod i Siambr y Cyngor, bydd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yn cwrdd â chi ac yn rhoi sedd briodol i chi. Bydd gofyn i i bob holwr gyflwyno'i hun pan fydd y Llywydd yn galw'r cwestiwn ar gyfer ei ateb. Ar ôl i'r holwr



ei gyflwyno'i hun, bydd y Cyngor ar ddeall bod y cwestiwn wedi'i ofyn. Os bydd yr holwr yn absennol, neu heb gyflwyno'i hun, rhoir ateb i'r cwestiwn yn ysgrifenedig.

Os byddwch chi'n ymuno â'r cyfarfod ar-lein, bydd swyddog y Cyngor yn cysylltu â chi drwy e-bost neu dros y ffôn er mwyn rhoi'r manylion mewngofnodi angenrheidiol i chi. Ni ddylech chi rannu rhif adnabod y cyfarfod na'r cyfrinair gydag unrhyw un arall. Dim ond un person fydd yn gallu ymuno â'r cyfarfod gan ddefnyddio'r manylion yma. Os ydych chi'n rhannu'r manylion yma, efallai fydd ddim modd i chi ymuno â'r cyfarfod.

Nodwch: Os ydych chi'n dewis y naill opsiwn neu'r llall, rydych chi'n cydsynio i gael eich cynnwys yn y recordiad o'r cyfarfod a fydd yn cael ei rannu ar wefan y Cyngor.

(Gweler isod y ddolen i Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol y Cyngor:-

Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol y Cyngor – [Sut byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol – Trosolwg | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf \(rhondda-cynon-taf.gov.uk\)](#)

10. Pryd bydda i'n siarad yn ystod y cyfarfod?

Bydd y cyfarfod yn dilyn trefn yr agenda, a bydd siaradwyr cyhoeddus yn cael eu cyflwyno gan y Cadeirydd ar yr adeg briodol, a'u hannog i annerch y Pwyllgor.

11. Dogfennau ategol neu gymhorthion gweledol

Er mwyn i Aelodau ystyried unrhyw bwyntiau y mae siaradwyr cyhoeddus yn eu gwneud, rhaid iddyn nhw ddarparu unrhyw wybodaeth/dogfennau ategol ymlaen llaw wrth gofrestru i siarad. Does dim modd cyflwyno unrhyw wybodaeth/dogfennau ychwanegol yn y cyfarfod ei hun.



12. Ar ôl annerch y Pwyllgor

Ar ôl i chi orffen gofyn eich cwestiwn, bydd yr unigolyn perthnasol yn ymateb ar lafar o dan gyfarwyddyd y Cadeirydd. Mae modd i'r unigolyn yma fod yn Aelod o'r Adain Weithredol, Cadeirydd un o Bwyllgorau'r Cyngor, neu'n unrhyw Aelod o'r Cyngor.

Mae croeso i chi adael y cyfarfod unwaith i'r Cyngor symud ymlaen i'r eitem nesaf.

Bydd cofnodion o gyfarfod y Cyngor yn cael ei llunio er mwyn darparu cofnod cyhoeddus ffurfiol. Bydd y rhain yn cynnwys enwau'r siaradwyr cyhoeddus a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

13. Sut ydw i'n cofrestru i siarad?

Mae agendâu cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor, 5 diwrnod clir cyn dyddiad y cyfarfod.

Mae modd gofyn cwestiwn dim ond os ydych chi wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig drwy anfon e-bost i'r Swyddog Priodol cyn **5.00pm o leiaf 8 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod (heb gynnwys diwrnod y cyfarfod)**. Rhaid i bob cwestiwn nodi **enw a chyfeiriad y sawl sy'n ei ofyn, gan enwi'r Aelod y cyfeirir y cwestiwn ato ef neu ati hi ar gyfer ei ateb**.

Byddwn ni'n rhoi gwybod i bawb sydd wedi cofrestru i siarad cyn y cyfarfod os yw eu cais i siarad wedi cael ei dderbyn, naill ai drwy e-bost neu drwy'r rhif ffôn cyswllt maen nhw wedi'i ddarparu.

14. Sut ydw i'n cofrestru i siarad yn Gymraeg?

Rydyn ni'n croesawu unrhyw ohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn unol â'r canllawiau (sydd i'w gweld yn adran 13 uchod), os ydych chi am annerch Aelodau'r Cyngor Llawn yn Gymraeg, mae'r un broses yn berthnasol, a dylech chi nodi a ydych chi am siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael yn y cyfarfod os byddwch chi'n dymuno annerch y Cyngor Llawn yn Gymraeg.



15. Sut ydw i'n cofrestru i siarad os oes gyda fi anabledd neu anghenion ychwanegol?

Os oes gyda chi anabledd neu unrhyw anghenion ychwanegol a bod angen cymorth arnoch chi er mwyn cymryd rhan yng nghyfarfod y Cyngor Llawn, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost isod erbyn 5pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn y cyfarfod perthnasol. Bydd aelod o'n carfan yn hapus i gysylltu â chi i drafod eich anghenion penodol a threfnu'ch cais i siarad.

16. Cyflwyno sylwadau ysgrifenedig

Mae'n bosibl y bydd yn well gennych gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'w darllen gan Gadeirydd y Pwyllgor yn y cyfarfod. Os yw hyn yn wir, rydyn ni'n croesawu sylwadau ysgrifenedig ond rhaid eu cyflwyno erbyn 5pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn cyfarfod y Pwyllgor Craffu perthnasol.

Anfonwch sylwadau ysgrifenedig i:

E-bost: BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk

neu drwy'r post:

Uned Busnes y Cyngor, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, 2 Llys Cadwyn, Stryd Taf, Pontypridd. CF37 4TH

17. Gwybodaeth Ychwanegol

Does dim hawl gan aelodau'r cyhoedd ffilmio na recordio cyfarfodydd ac rydyn ni'n gofyn iddyn nhw beidio â rhannu manylion ymuno'r cyfarfodydd gydag unrhyw un arall.

Dylai siaradwyr roi gwybod i'r Gwasanaethau Democraataidd ymlaen llaw os oes gyda nhw unrhyw anghenion neu ofynion arbennig.





Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau am aelodau'r cyhoedd yn siarad mewn cyfarfod, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'n carfan gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost isod:

BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk

